31 Ionawr 2025

At:

Benaethiaid sefydliadau addysg uwch
Benaethiaid sefydliadau addysg bellach
Arweinwyr prentisiaethau
Cyfarwyddwyr addysg

Annwyl gydweithwyr,

**Rhagdybiaethau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi braslun o'r rhagdybiaethau cyllido sy'n sail ar gyfer cynlluniau Medr i ddosbarthu ei gyllideb.

Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024 a'r Llythyr Cyllid Dangosol dilynol a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2025.

Disgwylir y Llythyr Cyllid terfynol cyn diwedd mis Mawrth 2025. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y ceir rhyw lawer o newid i'r rhagdybiaethau a nodir yma ar ôl derbyn y llythyr hwnnw.

Cyflwynir y cynigion cyllido yn y ddogfen hon gyda'r cafeat y gallai'r dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 o 1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2026 (BAc) gael eu haddasu os bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio llinell gyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026).

Ystyriwyd y gyllideb ddangosol gan Fwrdd Medr yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cyn i'r gyllideb derfynol gael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (27 Chwefror 2025). Wedi hynny bydd Medr yn ffurfioli a chyhoeddi ein dyraniadau terfynol ym mis Ebrill 2025.

Ceir cadarnhad o'r dyraniadau cyllid terfynol ar lefel sefydliadol/darparydd yn amodol ar argaeledd data dilysiedig â sicrwydd ansawdd a ddefnyddir i lywio'r methodolegau cyllido y cytunwyd arnynt.



2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

www.medr.cymru

## Y setliad

Cyflwynir manylion setliad Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn Nhabl 1. Mae ffigurau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth.

| **Maes cyllideb** | **Cyllideb adnoddau net** |
|---|---:|
| Addysg | £804,681,000 |
| *Gan gynnwys: prentisiaethau iau 14-16* | *£600,000* |
| Prentisiaethau | £143,277,000 |
| | |
| **Cyllideb refeniw net:** | **£947,958,000** |
| | |
| Anariannol (dibrisiant) | £437,000 |
| **Cyllideb adnoddau** | **£948,395,000** |
| | |
| Cyfalaf addysg uwch | £10,000,000 |
| Cyfalaf digidol addysg bellach | £3,000,000 |
| Cyfalaf gweithredu Medr | £500,000 |
| **Cyllideb cyfalaf** | **£13,500,000** |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf:** | **£961,895,000** |
| *Addasiadau Cymorth Grant:* | |
| *Llai'r dyraniad anariannol (dibrisiant)* | £437,000 |
| | |
| **Cyfanswm Cymorth Grant (Arian)** | **£961,458,000** |

## Dyraniad dangosol Cyllideb Medr

Wrth ddefnyddio cyllideb 2025-26 dylid nodi bod dyraniadau i addysg drydyddol a darparwyr ymchwil yn cael eu dyrannu'n bennaf ar sail blwyddyn academaidd. Gan hynny, mae'n rhaid i gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 roi cyfrif yn gyntaf am y gofyniad arian parod hysbys i fodloni gweddill ymrwymiadau cyllido blwyddyn academaidd 2024/25 a osodwyd ar gyllideb Medr drwy benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn yr un modd, wrth gytuno ar ddyraniadau blwyddyn academaidd 2025/26, bydd ymrwymiad tebyg yn cael ei osod ar gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27, nad yw eto wedi'i phennu gan Lywodraeth Cymru.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ni fanylir ar wahân ar gostau gweithredu Medr yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cyn i ddyraniadau'r flwyddyn academaidd gael eu pennu, caiff costau gweithredu rhagamcannol Medr eu didynnu.

Mae nifer o linellau cyllido wedi cael eu neilltuo i ariannu gweithgarwch penodol yn uniongyrchol. Yn 2025-26 mae hyn yn cynnwys £143,277,000 i ddarparu prentisiaethau a £600,000 i ddarparu prentisiaethau iau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi awgrymiadau arbennig ynghylch sut y dylid dyrannu'r gyllideb, ac mae'r rheiny wedi'u cynnwys yn y ddogfen Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

**Dyraniad dangosol cyllideb y flwyddyn ariannol**

Mae'r dyraniad dangosol yn cyflwyno cyllideb arfaethedig yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfredol sydd ar gael ynghylch rhwymedigaethau llinellau cyllideb. Mae'n cynnwys yr holl gyllid yr ydym yn disgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r ddogfen hon.

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| Gofyniad arian parod i fodloni ymrwymiadau dyraniadau 2024/25 fel y cytunwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch | **159.410** |
| Gofyniad arian parod i fodloni ymrwymiadau dyraniadau 2024/25 fel y cytunwyd gan Gyngor CCAUC | **68.805** |
| Cyllideb gweithredu * | **16.128** |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau | **143.277** |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau iau | **0.600** |
| Cyllidebau craidd ** | **531.967** |
| Cyllidebau strategol | **29.333** |
| Cyllidebau cyfalaf | **13.500** |
| **Cyfanswm** | **961.458** |

*Bydd £1.562 miliwn o’r gyllideb weithredu o £16.128 miliwn yn cael ei ryddhau i’r sector yn 2025/26 wrth i Medr barhau i dyfu tuag at fodel gweithredu y cytunwyd arno ar ei gyfer.

** o fewn y flwyddyn ariannol mae cyfanswm o £21 miliwn wedi’i nodi i gydnabod cynnydd yng nghyfranogiad cohort 16-19. Bydd hwn yn cael ei ddyrannu ar ôl derbyn ffurflenni data yn ystod y flwyddyn i sicrhau tystiolaeth o'r cynnydd.

**Trosi cyllideb blwyddyn ariannol yn ddyraniad blwyddyn academaidd**

Er mwyn cyfrifo dyraniadau blwyddyn academaidd, mae dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i drosi'n ddyraniad blwyddyn academaidd. Cyfrifir hyn gan amlaf drwy ddefnyddio cyfran o ddrafft cyfredol cyllideb y flwyddyn ariannol (tua 60%) a chyfran gydbwysol o gyllideb blwyddyn ariannol y flwyddyn nesaf. Gall hyn amrywio yn dibynnu

ar y sector, gydag addysg bellach (AB) a phrentisiaethau yn gweithredu ar ymraniad 63/37.

| | **2024/25 £ miliwn** | **2025/26 £ miliwn** |
|---|---|---|
| Wedi'i glustnodi: contract prentisiaethau | **134.520** | **134.520** |
| Craidd: chweched dosbarth awdurdodau lleol* | **116.664** | **116.853** |
| Craidd: Dysgu Oedolion yn y Gymuned awdurdodau lleol* | **6.479** | **6.479** |
| Craidd: addysg bellach prif ffrwd | **409.066** | **422.826** |
| Craidd: cymorth dysgu ychwanegol addysg bellach | **16.741** | **16.741** |
| Craidd: Cronfa Ariannol Wrth Gefn addysg bellach | **6.715** | **6.715** |
| Craidd: ymchwil ac arloesi addysg uwch ** [1] | **97.068** | **97.295** |
| Craidd: cyllid addysgu addysg uwch ** [2] | **69.661** | **69.434** |
| Craidd: prentisiaethau gradd | **9.411** | **9.411** |
| Strategol: mynediad, llesiant a chynhwysiant *** | **23.962** | **25.962** |
| Strategol: cyflogadwyedd a sgiliau *** | **3.320** | **3.320** |
| Strategol: ymchwil ac arloesi*** | **1.733** | **2.000** |
| Strategol: y myfyriwr/dysgwr a'r gweithlu *** | **8.254** | **8.254** |
| Strategol: data a thechnoleg *** | **3.993** | **3.993** |
| Strategol: datblygiadau strategol | **2.250** | **3.500** |
| Cyfalaf: addysg uwch | **10.000** | **10.000** |
| Cyfalaf: addysg bellach ddigidol | **3.000** | **3.000** |
| **Cyfanswm** | **922.840** | **940.300** |

Tynnir eich sylw yn benodol at y canlynol:

* Yn y gorffennol, byddai dyraniadau chweched dosbarth awdurdodau lleol a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael eu pennu ar sail blwyddyn ariannol. Ar gyfer 2025/26, cynigir bod awdurdodau lleol yn cael dyraniad 16 mis o fis Ebrill 2025 hyd at fis Gorffennaf 2026, gan ganiatáu i Medr symud yr holl ddarpariaeth graidd drydyddol i gylch cyllideb blwyddyn academaidd.

** Ar hyn o bryd, mae cyllid craidd ymchwil ac arloesi ac addysgu addysg uwch wedi'u cyfrifo ar sail dyraniadau gan ddefnyddio data annilysedig. Gall hyn arwain at fân amrywiadau, y naill ffordd neu'r llall, wrth gyfrifo'r dyraniadau cyllid terfynol drwy ddefnyddio'r data diweddaraf sydd wedi'u dilysu.

** Ar ôl cymhwyso gostyngiad pro rata untro o £11 miliwn yn 2024/25. Gan nad yw cyllid Llywodraeth Cymru yn 2025-26 yn gwrthdroi'r toriad hwn, mae'r ffigurau a gyflwynir yn y tabl hwn wedi'u cyfrifo ar sail y ffigur ar ôl y gostyngiad, ar sail pro rata yn erbyn pob llinell fel bo modd cymharu.

1 Mae hyn yn cynnwys Ymchwil o Ansawdd (QR), ymchwil ôl-raddedig (PGR) a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

2 Mae hyn yn cynnwys premiymau amser llawn a rhan-amser, dyraniadau seiliedig ar gredydau a dyraniadau fesul pen.


*** Mae cyllidebau strategol yn cynnwys llinellau cyllido strategol a drosglwyddwyd i Medr o Lywodraeth Cymru a CCAUC. Mae cyfanswm o 49 o linellau cyllido strategol wedi cael eu grwpio i chwe llinell cyllideb thematig. Mae cyllideb sydd i raddau helaeth yn wastad o ran arian parod wedi galluogi sefydlogrwydd yn lefelau'r cyllid, gyda chynnydd i'r gyllideb mynediad, llesiant a chynhwysiant (£2 miliwn i gydnabod cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ynghylch cynnydd o £2 miliwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl) a'r gyllideb ymchwil ac arloesi. Gall y grwpiau hyn newid mewn blynyddoedd dilynol ar ôl gwerthuso diben a chanlyniadau'r buddsoddiadau strategol hyn.

Yn ogystal, mae’r cynigion:

- Yn dilyn cyfarwyddiadau clir a roddwyd gan Lywodraeth Cymru o ran sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau athrawon a darlithwyr AB.
- Yn gyson â chyfnod sefydlu Cynllun Strategol Medr drwy ddyrannu'r holl ddyraniadau craidd yn unol â methodolegau cyllido a gymeradwywyd yn flaenorol.[3]
- Yn gosod gofyniad arian parod o £331.286 miliwn ar gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 wrth drosi cyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 i ddyraniad blwyddyn academaidd 2025/26.

Lle bo data dilysiedig yn caniatáu, ceir dyraniadau dangosol ar lefel sefydliad/darparydd i ddilyn y nodyn hwn ar ragdybiaethau cyllido. Bydd dyraniadau blwyddyn academaidd terfynol yn cael eu darparu i bob darparydd trydyddol yn dilyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ac ar ôl derbyn yr holl ddata dilysiedig.

Yn gywir,



**Simon Pirotte**
Prif Weithredwr

[3]Wrth baratoi am gyfnod twf y cynllun strategol rhagwelwn ymgysylltiad buan â'r sector cyn defnyddio pwerau ffurfiol i ymgynghori ar adolygiadau o fethodolegau cyllido lle bo angen.